ssce CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES

CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

NEWYDDLEN

HAF 2022

ssce CYMRU

CLILC WLGA

Cenhadaeth SSCE Cymru

Gwybodaeth a thystiolaeth

Cydgysylltu gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth o brofiadau plant y Lluoedd Arfog ym maes addysg i sicrhau bod dealltwriaeth dda o'u hanghenion.

Gweithgareddau ac adnoddau

Cydweithio ag aelodau rhwydwaith SSCE Cymru i gynnal gweithgareddau a chynhyrchu adnoddau a fydd yn helpu i gefnogi plant y Lluoedd ar hyd eu haddysg.

Polisi a Systemau Ategol

Gweithio gyda sefydliadau i roi tystiolaeth ac effaith polisi sy'n berthnasol i gefnogi plant mewn addysg.

CYNNWYS

DIWEDDARIADAU SSCE CYMRU 4

- Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol
- Mis y Plentyn Milwrol
- Statws Ysgolion sy'n Gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog
- Gwyliau preswyl i blant y lluoedd arfog
- Mwy o wybodaeth.

DIGWYDDIADAU I DDOD 12

- Gweminarau Rhwydwaith
- Gweminarau Rhwydwaith: LLAIS PLANT Y LLUOEDD ARFOG
- Little Troopers: Gweithdy Ar-lein
- VC Gallery: clybiau brecwast.

DIWEDDARIADAU RHWYDWAITH 17

SEFYDLIADAU ADDYSG p17
- Cynghrair SCiP: Pecyn Gwaith Bywydau Llewyrchus

SEFYDLIADAU'R LLUOEDD ARFOG p19
- Gwasanaethau Plant Amddiffyn
- Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog
- Help for Heroes
- Naval Families Federation
- Army Families Federation

AWDURDODAU LLEOL p25
- Powys

YSGOLION p27
- Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog

ARALL p29
- The Outward Bound Trust
- Careers Wales.

DIWEDDARIADAU CYLLID 32

- Forces for Change programme
- Cronfa Cefnogi Addysg
- Cyllid Llywodraeth Cymru
- Cymorth cyllido SSCE Cymru.

ADNODDAU 37

- Gwefan SSCE Cymru: tudalennau newydd/adnoddau
- Crynodeb adnoddau SSCE Cymru
- Cylchgronau'r Ffederasiwn Teuluoedd.

ASTUDIAETHAU ACHOS 41

DIWEDDARIADAU SSCE CYMRU

Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol – Plant Milwyr (Dwyrain Cymru)

"Rwy'n edrych ymlaen yn arw at ddechrau fy swydd fel Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer Dwyrain Cymru, ac fe wnaf fy ngorau glas i gynnig gymaint o gefnogaeth â phosibl i ysgolion i sicrhau bod Plant y Lluoedd Arfog yn cael profiadau ysgol dymunol a chofiadwy gan fod bob plentyn yn haeddu hynny, beth bynnag fo'u ffordd o fyw."

Diolch i gyllid gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae ein haelod diweddaraf, Emilee Kinsey, wedi ymuno â Thîm SSCE Cymru.
Gan ymuno â'r Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol eraill, bydd Emilee'n gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol yn rhanbarth Dwyrain Cymru i godi ymwybyddiaeth o brofiadau plant y lluoedd arfog a'u cefnogi.

Manylion Cyswllt:
Emilee.Kinsey@newport.gov.uk

Mis y Plentyn Milwrol 2022

Mae mis Ebrill wedi'i ddynodi yn Fis y Plentyn Milwrol, sydd yn tynnu sylw at rôl bwysig y mae Plant y Lluoedd Arfog yn ei chwarae yng nghymuned y Lluoedd Arfog. Mae'n gyfle i gefnogi teuluoedd y Lluoedd Arfog a'u plant oherwydd yr aberth maen nhw'n ei wneud bob dydd a'r heriau maen nhw'n eu goresgyn.

Cynhaliodd a chefnogodd SSCE Cymru nifer o weithgareddau yn ystod Mis y Plentyn Milwrol, gan gynnwys:

- Gweminar Rhwydwaith SSCE Cymru - cefnogi lles
- Ysgolion: Cyflawni statws Efydd AFFS Cymru
- Prifysgol De Cymru: Y Diwrnod Lluoedd Creadigol cyntaf yng Nghymru
- Ffitrwydd y Lluoedd Arfog: Diwrnodau Hwyl i'r Teulu yn Ne Cymru
- Gwasanaeth Lles y Fyddin: Fideo pennill Dant y Llew grŵp ieuenctid "Between the Line"
- VC Gallery: Gweithdai ac arddangosfa gelf Anturiaethau Teuluoedd Milwyr.

Mis y Plentyn Milwrol 2022

Cymerodd ysgolion ar draws Cymru ran ym Mis y Plentyn Milwrol drwy weithgareddau i godi ymwybyddiaeth am brofiadau unigryw Plant y Lluoedd Arfog, a rhannu a dathlu'r profiadau hynny gan greu amgylchedd sy'n cefnogi'r Lluoedd Arfog.

Roedd y gweithgareddau mewn ysgolion yn cynnwys:

- Diwrnod gwisgo piws
- Ras hwyl i gasglu arian at elusennau'r Lluoedd Arfog
- Gwaith celf ar y thema dant y llew
- Gwasanaethau am deuluoedd Milwyr a'r Lluoedd Arfog
- Llefaru pennill Dant y Llew yn y dosbarth
- Cynhyrchu fideos am brofiadau plant y Lluoedd Arfog.

Month of the Military Child
Mis y Plentyn Milwrol
April/Ebrill | #MilitaryChildMonthCymru

Ymwelwch â gwefan **SSCE Cymru** i weld fideos a lluniau am weithgareddau Mis y Plentyn Milwrol.

Statws Ysgolion sy'n Gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog

AMCANION

1. Cynnwys arfer da ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog
2. Creu amgylchedd cadarnhaol i blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiadau
3. Annog ysgolion i ymgysylltu fwy â'u cymuned y Lluoedd Arfog

ARMED FORCES FRIENDLY SCHOOLS CYMRU YSGOLION SY'N GYGEILLGAR I'R LLUOEDD ARFOG

Bydd y Swyddogion Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol yn gweithio'n agos gyda phob ysgol i'w cefnogi i gyflawni eu statws, trwy gwblhau gweithgareddau/camau gweithredu ar rhestr wirio Ysgol SSCE Cymru.

Ewch i www.sscecymru.co.uk i gael rhagor o wybodaeth

THEMÂU MEINI PRAWF

NODI
Plant y Lluoedd Arfog ac aelod allweddol o staff

DEALL
Plant y Lluoedd Arfog a'u hanghenion unigol

YMGYSYLLTU
Â SSCE Cymru a chymuned y Lluoedd Arfog

ssce CYMRU

CLILC WLGA

Gwyliau preswyl i blant y lluoedd arfog

Cymerodd 15 o blant y Lluoedd Arfog o Ddwyrain Cymru ran mewn gwyliau preswyl lle cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau iechyd a lles gyda Ffitrwydd y Lluoedd Arfog a SSCE Cymru!
Cynhaliwyd y gwyliau preswyl ym mis Mai ar Fferm Ymddiriedolaeth Amelia ym Mro Morgannwg gyda chefnogaeth y Gwarchodlu Cymreig a Woody's Lodge. Y gwyliau hwn oedd y cyntaf o'i fath ar gyfer plant y Lluoedd Arfog sy'n byw yng Nghymru, ac roedd yn llwyddiant ysgubol. Roedd y rhaglen yn canolbwyntio ar feithrin tîm, cyfathrebu, gwella iechyd a lles, gwneud ffrindiau newydd a rhannu profiadau gan fwynhau'r awyr agored. I gloi'r penwythnos, cafwyd ymweliad gan Gapten Ian Moore o'r Cymry Brenhinol a'r Cynghorydd Lisa Dymock, Hyrwyddwr Lluoedd Arfog Cyngor Sir Fynwy, i gyflwyno gwobrau i'r mynychwyr!

Dywedodd 100% o'r plant eu bod wedi mwynhau'r penwythnos a'u bod yn awyddus i fynd eto!

Gwyliau preswyl i blant y lluoedd arfog

"Mi wnes i fwynhau gwneud ffrindiau newydd a chael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog. Mi wnes i hefyd fwynhau'r noson ffilmiau a'r frwydr ddŵr, cefais lawer o hwyl gyda'r plant eraill. "
Plentyn y Lluoedd Arfog

"Roeddwn wrth fy modd ac roedd yn gyfle gwych i gwrdd â phlant sy'n debyg i mi"
Plentyn y Lluoedd Arfog

"Roedd yn wyliau hollol wych i blant arbennig iawn, ac rwyf wirioneddol wedi mwynhau clywed eu straeon a'u profiadau a'u gweld yn dod ymlaen cystal gyda'i gilydd!"
Sean
Ffitrwydd y Lluoedd Arfog

"Roedd yn wych ac yn well na'r disgwyl. Roedd yn hyfryd siarad gyda phlant eraill sy'n deall y lluoedd arfog ac roedd yn braf gallu trafod eu profiadau."
Plentyn y Lluoedd Arfog

"Diolch i bawb a oedd ynghlwm â'r gwyliau hwn. Mae'n wych gweld Jake yn gwenu ac yn ddigon hyderus i siarad â chi mewn cyfweliad."
Rhiant

"Mi wnes i fwynhau popeth. Mwynheais y daith anifeiliaid a'r gweithgaredd adeiladu cuddfan".
Plentyn y Lluoedd Arfog

"Diolch i'r tîm am drefnu'r gwyliau tri diwrnod hyfryd hwn i'r plant. Cafodd Elinor amser gwych a dydi hi heb stopio sôn am ei hantur yn Woody's Lodge ers iddi ddod adref."
Rhiant

"Roedd tîm SSCE Cymru wrth eu boddau'n cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r plant a chanfod pa gefnogaeth yr hoffent i ni ei chynnig yn eu hysgolion."
Jody, SSCE Cymru

Am ragor o wybodaeth am raglen SSCE Cymru ewch i www.SSCECymru.co.uk a dilyn @SSCECymru ar Twitter.

Mae croeso i chi ddosbarthu newyddlen SSCE Cymru i'ch rhwydwaith a'ch cysylltiadau eich hun. Gall unrhyw un sydd am ymuno â Rhwydwaith SSCE Cymru gofrestru yma.

DIGWYDDIADAU I DDOD

Gweminarau Rhwydwaith SSCE Cymru 2022

LLAIS PLANT Y LLUOEDD ARFOG

Dydd Mercher
6 Gorffennaf
14:00-16:30

CYMORTH I DEULUOEDD

Dydd Mercher
12 Hydref
14:00-16:30

AMCANION

- Rhannu gwybodaeth gydag ysgolion am sefydliadau perthnasol a chymorth
- Rhannu enghreifftiau o arfer da
- Darparu gwybodaeth am gyfleoedd ariannol ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol

CYNULLEIDFA

1. Staff ysgol
2. Aelodau rhwydwaith SSCE Cymru
3. Teuluoedd y Lluoedd Arfog

Gwelwch wefan SSCE Cymru am fwy o wybodaeth ac i gadw lle.

ssce CYMRU

CLILC WLGA

Gweminarau Rhwydwaith SSCE Cymru: LLAIS PLANT Y LLUOEDD ARFOG

Dydd Mercher
6 Gorffennaf
14:00-16:30

Gwelwch wefan SSCE Cymru am fwy o wybodaeth ac i gadw lle.

RHAGLEN

1. SSCE Cymru
- Swyddog Arweiniol Cyfranogiad
- Llysgennad Plant y Lluoedd Arfog

2. Gweithdai/cyflwyniadau aelodau'r rhwydwaith

Cynghrair SCiP: Gwrando ar ddysgu
Never Such Innocence: Lleisiau plant y Lluoedd Arfog
Little Troopers: Clwb Bywyd y Lluoedd

3. Enghreifftiau o arferion da

4. Cyfleoedd cyllid
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn - Cronfa Cymorth Addysg (ESF)

5. Panel Holi ac Ateb.

Gweithdy Ar-lein i Ysgolion Cynradd

7 Gorffennaf 2022

Thema'r gweithdy eleni yw lles ac ymwybyddiaeth ofalgar, a bydd y plant sy'n cymryd rhan yn derbyn anrhegion, gan gynnwys pecyn o gardiau dyfyniadau cadarnhaol.

Yn ystod y sesiwn 2 awr, bydd y plant yn cymryd rhan mewn gemau, symudiadau, trafodaethau cylch, taflenni gwaith a gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar. Gweler yr amserlen weithgareddau isod. Cyn y sesiwn, byddwn yn anfon popeth sydd ei angen arnoch i gynnal y sesiwn, gan gynnwys nodiadau hwyluso manwl ac adnoddau i'w lawrlwytho a'u hargraffu ymlaen llaw.

Drwy gynnal gweithdy ar-lein, gall ein helusen gyrraedd a chefnogi gymaint o blant lluoedd arfog â phosibl a'u helpu i deimlo'n rhan o'r rhwydwaith arbennig hwn o blant milwrol ar draws cymuned y Lluoedd Arfog. Byddai'n wych gweld gymaint o ysgolion â phosibl yn cymryd rhan er mwyn i amrywiaeth eang o blant y lluoedd arfog edrych ymlaen at fewngofnodi gyda miloedd o blant milwrol ar draws cymuned y Lluoedd Arfog Prydeinig.

Am ragor o wybodaeth neu i archebu lle ar y sesiwn, ymwelwch â gwefan y Little Troopers .

VC Gallery – clybiau brecwast

THE VC GALLERY
VETERANS & COMMUNITY

Diolch i gyllid gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae'n bleser gan y VC Gallery gynnal clybiau brecwast bore Sadwrn ar gyfer cyn-filwyr, eu teuluoedd, milwyr wrth gefn a chadetiaid.

I gael rhagor o wybodaeth ymwelwch â gwefan y VC Gallery.

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RWYDWAITH SSCE CYMRU

SEFYDLIADAU ADDYSG

Cynghrair SCiP: Pecyn Gwaith Bywydau Llewyrchus

Mae Ffederasiwn Teuluoedd yr Awyrlu Brenhinol yn deall y bydd plant o deuluoedd Lluoedd Arfog yn wynebu heriau o ran eu haddysg gan fod natur bywyd yn y Lluoedd Arfog yn golygu bod rhaid iddynt symud yn aml, a phrofi cyfnodau ar wahân a/neu mewn lleoliadau gwahanol.

Rydym yn falch o ddweud bod Cynghrair Datblygu Plant y Lluoedd Arfog (SCiP Alliance) wedi lansio llwyfan rhyngweithiol ar-lein i ysgolion i'w helpu i werthuso a datblygu eu cefnogaeth i blant o gefndir y Lluoedd Arfog.

Yn seiliedig ar waith ymchwil ac arbrofion manwl mewn ysgolion, mae'r Pecyn Gwaith Bywydau Llewyrchus yn darparu fframwaith 7 egwyddor ac adnoddau Datblygiad Proffesiynol Parhaus i ysgolion i'w galluogi i fyfyrio ar eu harferion a datblygu eu cefnogaeth i blant o gefndiroedd Lluoedd Arfog i wella eu cynnydd addysgol.

Os ydych chi'n gweithio yn y maes addysg neu â phlant oedran ysgol, efallai y gallwch sôn am y Pecyn Gwaith Bywydau Llewyrchus gyda'r rheiny sy'n gweithio â phlant y lluoedd arfog yn eich ardal leol i hyrwyddo'r adnodd hwn a helpu i ddatblygu'r gefnogaeth sydd ar gael i blant y Lluoedd Arfog yn y byd addysg.

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RWYDWAITH SSCE CYMRU

SEFYDLIADAU'R LLUOEDD ARFOG

Defence Children Services

Gwasanaethau Plant Amddiffyn

Mae gan y Gwasanaethau Plant Amddiffyn Dimau Ymgynghorol Addysg sydd ar gael i gefnogi teuluoedd Milwyr gyda chwestiynau sydd ganddynt am addysg eu plant. Gallwn gefnogi teuluoedd ble bynnag y maent yn y byd a chynorthwyo rhieni i wneud penderfyniadau deallus am addysg eu plant.

Mae'r Timau Ymgynghorol Addysg ar gael i gefnogi teuluoedd sy'n symud rhwng gwahanol wledydd yn y DU neu dramor, i'w galluogi i sicrhau darpariaeth briodol i'w plant. Rydym ni'n annog y rhai sydd ynghlwm â chefnogi plant milwyr i gyfeirio teuluoedd at ein gwasanaeth ni mor fuan â phosib' fel y gallwn ni eu cynghori ar y cyfle cyntaf.

Mae mwy o wybodaeth am y cymorth rydym ni'n ei gynnig a manylion cyswllt ar ein gwefan:

https://www.gov.uk/government/groups/defence-children-services-dcs

Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog

Mae disgwyl i **Ddyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog** ddod i rym yn nes ymlaen eleni. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r ddyletswydd gyfreithiol hon, p'un a yw'n berthnasol i chi, a beth yw'r gofynion. Mae Dyletswydd y Cyfamod yn rhoi **rhwymedigaeth gyfreithiol** ar gyrff cyhoeddus penodol, wrth arfer swyddogaethau penodol ym meysydd Gofal Iechyd, Tai ac Addysg, i roi sylw dyledus i Gyfamod y Lluoedd Arfog. Er enghraifft, mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol, a byrddau ysgolion. Dan y Ddyletswydd, bydd angen iddynt fod yn ymwybodol o Gymuned y Lluoedd Arfog a'r heriau y gallant eu hwynebu, ac **ystyried yn ymwybodol** sut y gallant **leihau unrhyw anfanteision** o ganlyniad i fywyd yn Gwasanaethu. O ran gwasanaethau addysg, mae'r swyddogaethau sydd yng nghwmpas y Ddyletswydd yn cynnwys derbyniadau, cyflawniad addysgol a'r cwricwlwm, lles y plentyn, cludiant, presenoldeb ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Bydd canllawiau statudol yn cael eu darparu i gefnogi'r rhai hynny sydd o fewn cwmpas y Ddyletswydd i'w deall a'i gweithredu.

Am ragor o gefnogaeth a gwybodaeth am Ddyletswydd y Cyfamod, ewch i wefan Cyfamod y Lluoedd Arfog.

ARMED FORCES COVENANT
LLUOEDD ARFOG CYFAMOD

ssce CYMRU

CLILC WLGA

Enillydd cystadleuaeth dylunio crys-t cyn-filwyr

Yn ystod Mis y Plentyn Milwrol, gofynnodd yr elusen Lluoedd Arfog, Help for Heroes, i blant ysgol yng Nghymru ddylunio crys-t i gael ei wisgo gan ei thîm cyn-filwyr wrth iddynt ddringo i gopa mynydd uchaf De Cymru.

Dringodd tîm o staff, cefnogwyr a chyn-filwyr i gopa Pen y Fan ar 15 Mehefin yn gwisgo'r crysau-t wedi'u dylunio gan Sayami, plentyn milwr yn Ysgol Fabanod Mount Street yn Aberhonddu.

Cyflwynwyd y crys-t cyntaf i gael ei greu i Sayami yn ei hysgol. Mae ei dyluniad hi bellach ar gael i'w brynu o siop ar-lein yr Elusen.

Naval Families FEDERATION

UCAS: 2023 Applications

Are you, or is someone in your family, thinking about applying to university in 2023? UCAS have introduced a new section in their application so you have the option to share more information about your circumstances, including declaring whether you are part of an Armed Forces family.

For guidance from UCAS specifically created for students from an Armed Forces background, click here.

See the NFF website here for further information and resources about Universities and Higher Education.

Army Families Federation

Ffederasiwn Teuluoedd y Fyddin (AFF) yw'r llais annibynnol dros deuluoedd y Fyddin o amgylch y byd, gan ddarparu cysylltiadau hanfodol rhwng Teuluoedd, y Fyddin, y llywodraeth a phobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau. Rydym yn gweithio'n galed ar ran teuluoedd i gyflawni newid cadarnhaol a chynnig cyngor cyfrinachol am bob agwedd ar fywyd y Fyddin.

Cysylltwch â'ch Arweinydd Rhanbarthol AFF lleol (Sadie Baldwin). Cofrestrwch i gael ein e-newyddion. Ewch i'n gwefan aff.org.uk a dewch o hyd i ni ar Facebook, Twitter, LinkedIn ac Instagram.

Mae ein cylchgrawn, Army&You, yn cael ei ddosbarthu bedair gwaith y flwyddyn i deuluoedd y Fyddin yn y DU a thramor. Yn rhifyn yr haf, allan mewn print ac ar-lein ar 5 Gorffennaf, rydym ni'n edrych ar ffyrdd o adeiladu eich gyrfa fel cymar neu bartner. Rhowch gynnig ar ein cystadlaethau haf, sy'n cynnwys cyfle i ennill gwyliau glan y môr. Ewch i armyandyou.co.uk neu dewch o hyd iddo ar gyfryngau cymdeithasol.

Mae Forces Families Jobs, cynnyrch AFF, yn blatfform swyddi tri gwasanaeth, sy'n cysylltu gwŷr a gwragedd, partneriaid ac aelodau teulu personél milwrol presennol y DU gyda chyflogwyr a sefydliadau hyfforddiant sy'n gyfeillgar i'r Lluoedd Arfog. Ewch i forcesfamiliesjobs.co.uk

How can we help?

Housing | Employment & Training | Foreign & Commonwealth | Health & Additional needs | Education & Childcare | Family life | Finances | Forces Families Jobs

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RWYDWAITH SSCE CYMRU

AWDURDODAU LLEOL

Dathlu Mis y Plentyn Milwrol

Fe wnaeth un o Swyddogion Powys arwain sesiynau lles mewn dosbarthiadau gyda phlant milwyr. Roedden nhw'n canolbwyntio ar deimladau a newid, gan ddarllen cerdd dant y llew, creu lluniau o ddant y llew, dylunio emojis ar gyfer y gwahanol ffyrdd maen nhw'n teimlo a darllen amrywiaeth o lyfrau thema. Roedd y sesiynau'n gynhyrchiol iawn, yn cyfrannu at sut mae newid yn gwneud iddynt deimlo a strategaethau maent yn eu defnyddio i oresgyn heriau.

Fe wnaeth Swyddogion o Gyngor Sir Powys gyd-drefnu digwyddiad yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu gyda Darren Carew o Undeb Rygbi Cymru, sy'n gyn-filwr ei hun. Roedd y digwyddiad yn cynnwys sgwrs a sesiwn rygbi gynhwysol, gan Darren, yn canolbwyntio ar iechyd a lles meddyliol.

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RWYDWAITH SSCE CYMRU

YSGOLION

Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog

Gwobrau Efydd

Ysgol Uwchradd Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg

Ysgol Uwchradd WRh Hwlffordd, Sir Benfro

Ysgol Gynradd Cwm Clydach, Rhondda Cynon Taf

Ysgol Gynradd Llwynypia, Rhondda Cynon Taf

Ysgol Cwm Brombil, Castell-nedd Port Talbot

Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM RWYDWAITH SSCE CYMRU

AELODAU ERAILL O'R RHWYDWAITH

THE OUTWARD BOUND TRUST

Rhaglen Antur Outward Bound

Lleoedd ar Her Annington

I fod yn gymwys, mae'n rhaid i ymgeiswyr fod â phasbort o'r DU, bod rhwng 11 ac 19 oed ar adeg yr her a bod â rhiant sy'n gwasanaethu yn y Fyddin, y Llynges neu'r Awyrlu. Gallwch gofrestru diddordeb at 2023 yma. Bydd ceisiadau llawn ar gael pan fydd y cyllid wedi'i gadarnhau.

Cyllid elusennol cyffredinol sydd ar gael drwy Gronfa Antur Outward Bound

Gweithgaredd 'Basecamp' 5 diwrnod 16-17 oed - Aberdyfi
Gweithgaredd 'Ridge' 7 diwrnod 10-12 oed - Aberdyfi
Gweithgaredd 'Ridge' 7 diwrnod 16-17 oed - Aberdyfi
Gweithgaredd 'Summit' 14 diwrnod 13-15 oed - Pen Llyn Ogwen
Gweithgaredd 'Summit' 14 diwrnod 16-17 oed - Pen Llyn Ogwen
Gweithgaredd 'Pinnacle' 19 diwrnod 16-17 oed
Antur 'Basecamp' 5 diwrnod Outward Bound 16-17 oed

Diddordeb mewn cwrs blasu am ddim yn un o'n canolfannau yn Ardal y Llynnoedd ym mis Hydref?

Yn canolbwyntio ar ddatblygu Lles a Gwytnwch. Ewch i wefan Outward Bound am fwy o wybodaeth.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Working Wales
#changeyourstory

Tymor arholiadau

Os ydych chi, eich plentyn, neu rywun arall rydych chi'n ei adnabod i fod i gael canlyniadau arholiadau'n fuan, mae Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio yma i helpu.

Gall ein hymgynghorwyr arbenigol ni eich arwain a'ch cefnogi chi drwy eich opsiynau, hyd yn oed os nad ydych chi'n siŵr beth ydyn nhw eto.

Os ydych chi angen cyngor i gael lle ar y cwrs coleg cywir, dod o hyd i brentisiaeth, cael cymorth i ysgrifennu CV neu ddechrau eich busnes eich hun, gallwn ni ddarparu'r help rydych chi ei angen.

Mae ein canolfannau ledled Cymru ar agor ac yn barod i'ch cefnogi chi. Ffoniwch 0800 028 4844 i drefnu neu fynd i'n tudalen gyswllt am fyw o ffyrdd i gysylltu.

ssce CYMRU

CLILC WLGA

Y DIWEDDARAF YN YMWNEUD Â CHYLLID

ARMED FORCES COVENANT
LLUOEDD ARFOG CYFAMOD

Forces for Change programme

Bydd y rhaglen hon yn dyfarnu grantiau gwerth hyd at £10,000 i brosiectau cymunedol sy'n lleihau arwahanrwydd ac yn hybu integreiddio; gan gefnogi gwelliannau ar ôl Covid yng nghymunedau'r Lluoedd Arfog a gafodd eu heffeithio gan unigrwydd.
Mae ysgolion, lleoliadau addysg ac awdurdodau lleol yn gymwys i wneud cais dan y Rhaglen hon.

Dyddiad cau i wneud cais at 2022:
8 Awst
14 Tachwedd

Am fwy o wybodaeth, ewch i [wefan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog].

ssce CYMRU

CLILC WLGA

Ministry of Defence

Cronfa Cefnogi Addysg 2023

Ar gael ar hyd a lled y DU i gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol i oresgyn yr heriau a wynebir o ganlyniad i effaith sylweddol ffordd o fyw y Lluoedd Arfog.

Dyddiad cau i wneud cais at 2023**:**
30 Medi

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog.

ssce CYMRU

CLILC WLGA

Cyllid Llywodraeth Cymru

2022/23

Bydd £200,000 yn cael ei ddosbarthu i'r awdurdodau lleol yng Nghymru yn seiliedig ar gynlluniau cyllido a ddatblygwyd gan SSCE Cymru.
I gael rhagor o wybodaeth ar sut y bydd yr arian yn cael ei ddosbarthu a'i ddefnyddio, ewch i wefan SSCE Cymru.

Anogir Awdurdodau Lleol i ystyried:

- Cydweithrediad yr ALl a/neu yr ysgol
- Anghenion plant y Lluoedd Arfog
- Cefnogi ysgolion sy'n dangos arfer da a sy'n rhagweithiol o ran cefnogi plant y Lluoedd Arfog.
- Prosiectau cynaliadwy gydag effaith barhaus i blant y Lluoedd Arfog
- Sut y gallai'r effaith gael ei monitro a'i mesur.

Cymorth cyllido SSCE Cymru

Plant y Lluoedd Arfog – canllawiau cyllido ar gyfer ysgolion yng Nghymru

Cysylltwch â **RSLOs** i gael cymorth a chyngor.

I gael rhagor o wybodaeth am ffrydiau ariannu sydd ar gael i gefnogi plant y Lluoedd Arfog, ewch i wefan SSCE Cymru.

ADNODDAU

Gwefan SSCE Cymru: tudalennau newydd/adnoddau

Mis y Plentyn Milwrol

Ffilmiau o sut wnaeth ysgolion a sefydliadau yng Nghymru ddathlu Mis y Plant Milwrol ym mis Ebrill 2022. Yn cynnwys arddangosfa gelf a gweithdai VC Gallery: 'Adventures of a Service Family', Gwasanaeth Lles y Fyddin Aberhonddu: cerdd dant y Llew ac Ysgol Uwchradd Hwlffordd: 'Experiences of Service children'.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Gweminar y rhwydwaith: Wellbeing support

Recordiadau o weminar Rhwydwaith SSCE Cymru a gynhaliwyd ym mis Ebrill, yn canolbwyntio ar sut y gall ysgolion a lleoliadau addysg gefnogi anghenion lles plant milwyr.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.

Crynodeb adnoddau SSCE Cymru

Canllaw i Deuluoedd y Lluoedd Arfog

Pecyn Adnoddau Ysgol

Adnoddau

Esiamplau o Arferion Da

Ffilmiau profiadau plant y Lluoedd Arfog

Canllawiau Cyllido

Cyfeiriadur Cefnogaeth

Ffilmiau Dysgu Cymraeg

Newyddlenni

Adroddiad ADY plant y Lluoedd Arfog

Adroddiad Arolwg Ysgolion

Adroddiad Gwrando ar Blant Milwyr

Adroddiad Arolwg Rhieni/Gofalwyr

www.SSCECymru.co.uk

Cylchgronau'r Ffederasiwn Teuluoedd

Homeport

Naval Families FEDERATION

Ar gael yma.

Envoy

ROYAL AIR FORCE Families Federation

Ar gael yma.

Army & You

aff army families federation

Ar gael yma.

ASTUDIAETHAU ACHOS

Mae gan SSCE Cymru gyfres o astudiaethau achos ar y wefan, sy'n rhannu enghreifftiau o arfer da mewn ysgolion ac awdurdodau lleol ledled Cymru.

I ddweud wrthym am y gwaith rydych yn ei wneud a sut mae hynny wedi bod o fudd i blant y Lluoedd Arfog neu gymuned yr ysgol, cysylltwch â SSCECymru@wlga.gov.uk

Bydd Newyddlen nesaf SSCE Cymru yn cael ei dosbarthu yn Hydref 2022.

Os hoffech gyfrannu cynnwys i'r rhifyn nesaf, anfonwch y deunydd i SSCECymru@wlga.gov.uk erbyn 6 Medi 2022.

Dilynwch ni ar Twitter @SSCECymru